Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Yr Is-adran Ynni, Dŵr a Llifogydd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

29ain Gorffennaf 2015

Annwyl Syr/Madam

**Canllawiau Statudol ynghylch dyletswydd ymgymerwyr carthffosiaeth i gysylltu eiddo i'r system garthffosiaeth gyhoeddus * o dan Adran 101A o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991**

Diolch am y cyfle i wneud sylwadau ar yr ymgynghoriad ynghylch a diwygiadau i'r Canllaw Statudol ynghylch dyletswydd ymgymerwyr carthffosiaeth i gysylltu eiddo i'r system garthffosiaeth gyhoeddus Adran 101A o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991.
Rydym wedi nodi ein sylwadau yn ôl y penawdau o fewn y canllawiau perthnasol:

**3.3 Safleoedd cartrefi symudol a charafanau sefydlog**
Rydym yn cytuno bod darparu canllawiau ar ystyriaethau i'w hystyried wrth benderfynu os yw'r rhwymedigaeth s101A(1) yn berthnasol i safleoedd sy'n cynnwys carafanau sefydlog a chartrefi symudol yn gam ymlaen cadarnhaol i gymharu â Chanllaw Statudol gwreiddiol 1996.

Fodd bynnag mae'n destun gofid fod yr eglurder a'r cwmpas a gynhwysid yn y canllaw diwygiedig cyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2014 wedi cael ei golli a chyflwynwyd llawer mwy o oddrychedd. Gall hyn arwain at botensial o gynyddu'r achosion o benderfyniadau ddyletswydd y mae anghydfod yn eu cylch..

Ni nodwyd math penodol o garafán yn y canllawiau diwygiedig ac felly gellid cynnwys safleoedd carafanau teithiol sydd ag adeiladau sefydlog megis adeiladau toiledau a chyfleusterau golchi. Mae'r canllawiau ymgynghori yn cyfeirio at safleoedd sy'n cynnwys cartrefi symudol a charafanau sefydlog, yn unig.

Nid yw'n glir beth a olygir o ran ystyried faint o amser mewn blwyddyn benodol mae rhywun yn byw yn y garafán sefydlog neu'r cartref symudol. A yw hyn yn golygu y byddai safleoedd sydd yn wag am gyfnodau o'r flwyddyn yn llai tebygol o ddod o fewn cwmpas ar gyfer s101A na safleoedd gyda deiliadaeth barhaol?

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ein dadl yw y gall safleoedd sydd yn y bôn yn llwytho carthion yn achlysurol oherwydd amserau penodol o'r flwyddyn, arwain at anawsterau na ellid eu datrys yn hawdd gan driniaeth breifat arall a gallent o bosib elwa o gael eu cynnwys yng nghynlluniau s101A.

**3.4 Anghydfodau**

Rydym yn falch iawn o drosglwyddo'r rôl o gyflafareddwr o Cyfoeth Naturiol Cymru i'r Arolygiaeth Gynllunio. Bydd hyn yn rhyddhau Cyfoeth Naturiol Cymru o'i gallu lled-farnwrol mewn ardal sydd wrth ei wraidd yn ymwneud â gwella a diogelu'r amgylchedd. Bydd yn ein galluogi i weithredu mewn rôl strategol yn unig , a darparu cymorth ac arweiniad i gyrff allanol sydd â diddordeb mewn canlyn carthffosiaeth am y tro cyntaf, heb yna wrthdaro posibl o ran cymrodeddu ar anghydfod cysylltiedig.

Os oes angen rhagor o fanylion, cysylltwch â Chris Hall ar 03000654300

Yr eiddoch yn gywir

R. Jenkins

Ruth Jenkins
Pennaeth Isadran Strategaeth, Cyfoeth Naturiol A Chynllunio
Head of Natural Resources Strategy and Planning

Ffôn/Phone: 0300 065 3000
Ffacs/Fax: 0300 065 3001
Ebost: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Email: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk
Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd,
Caerdydd, CF24 0TP
Cambria House, 29 Newport Road,
Cardiff CF24 0TP
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ffôn/Phone: 0300 065 3000

Ebost: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd,
Caerdydd, CF24 OTP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

Ffacs/Fax: 0300 065 3001

Email: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

Cambria House, 29 Newport Road,
Cardiff CF24 OTP

Correspondence welcomed in Welsh and English